POLISÏAU

Polisi Amodau Trosglwyddo

AWST 2019

DOGFEN REOLEIDDIO

Cynnwys

Polisi Amodau Trosglwyddo 1

Cefndir 3

Egwyddorion Cyffredinol y Polisi 4

Yr amgylchiadau pan fo cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu yn debygol o gael ei gwneud yn ddarostyngedig i Amod Trosglwyddo 5

Yr amgylchiadau lle rydym yn debygol o Gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster 6

Nodi a chefnogi corff dyfarnu sy'n derbyn 6

Eiddo a hawliau 7

Taliadau 8

Yr amgylchiadau lle rydym yn debygol o adolygu neu ddiwygio Amodau Trosglwyddo, a'r ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried 8

Y broses ar gyfer Gosod Amod Trosglwyddo a rhoi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw 9

Atodiad 1 – Y Broses ar gyfer Gosod Amod Trosglwyddo a rhoi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw 12

Cefndir

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gyrff dyfarnu sydd wedi cael eu cydnabod o dan Adran 4 (*Cydnabod cyrff dyfarnu*) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf").

Mae "Amod Trosglwyddo" yn amod arbennig y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Ddeddf y gall cydnabyddiaeth corff dyfarnu gan Cymwysterau Cymru fod yn ddarostyngedig iddo.

Mae gosod Amod Trosglwyddo yn ein galluogi i gyfarwyddo corff dyfarnu cydnabyddedig i drefnu i gymhwyster neu fath o gymhwyster a ddyfernir ganddo gael ei drosglwyddo i gorff dyfarnu arall. Yn dilyn trosglwyddiad o'r fath, byddai'r corff dyfarnu sy'n derbyn yn gyfrifol am ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw i Ddysgwyr[1] yng Nghymru.

[1] At ddibenion y polisi hwn, ystyr "Dysgwr" yw unigolyn sy'n ceisio ennill cymwysterau, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wneud hynny.

Egwyddorion Cyffredinol y Polisi

1. Fel rheoleiddiwr cyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru, mae Cymwysterau Cymru ("ni") yn disgwyl i gyrff dyfarnu fod yn gyfrifol am eu Dysgwyr ac, felly, reoli a lliniaru unrhyw risgiau yn unol â hynny. Os na ellir bodloni'r disgwyliadau hyn, yna byddwn yn ystyried pa gamau rheoleiddio y gallem eu cymryd, gan gynnwys gosod Amod Trosglwyddo.

2. Mae "Amod Trosglwyddo" yn amod arbennig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu, yn achos digwyddiad a bennir, ac yn unol â chyfarwyddyd, drosglwyddo cymhwyster i gorff dyfarnu arall.

3. Dim ond i gymwysterau Cymeradwy a Dynodedig y mae'r polisi hwn yn berthnasol, ac nid i gymwysterau Eraill a Reoleiddir.

4. Byddai Amod Trosglwyddo yn berthnasol i gymhwyster a gynnigir gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gennym ac i Ddysgwyr yng Nghymru. Pe byddem yn gosod Amod Trosglwyddo, yna byddem yn ystyried effaith cam rheoleiddio o'r fath ar ddarpariaeth y cymhwyster hwnnw mewn gwledydd y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig.

5. Mae Amod Trosglwyddo yn un cam gweithredu ymhlith cyfres o bwerau sydd ar gael i ni a dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'n Fframwaith Rheoleiddio a Dull Gweithredu, sy'n nodi'r ffordd rydym yn rheoleiddio. Rydym yn rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar risg, ac mae'r hyn a wnawn yn seiliedig ar egwyddor rheoleiddio mewn ffordd gymesur, dryloyw ac wedi'i thargedu. Felly, wrth benderfynu a ddylid cyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster, byddwn yn ystyried pob cam rheoleiddio posibl, yn ogystal â chyfuniad o gamau, yn unol â'n Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.

6. Pe byddem yn cyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster, byddem yn gwneud hyn o ganlyniad i ddigwyddiad a bennwyd yn yr Amod Trosglwyddo sydd â risg o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr.

7. Rydym yn rhagweld y byddai Amod Trosglwyddo yn cael ei ystyried mewn sefyllfaoedd lle na chaiff Dysgwyr y cyfle i ennill eu cymhwyster neu lle nad ydynt yn debygol o wneud hynny heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain, a lle na all cyrff dyfarnu sy'n rhan o'r system cymwysterau ddod o hyd i ateb nad yw'n un rheoleiddiol a ystyrir yn briodol gennym ar y pryd.

Yr amgylchiadau pan fo cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu yn debygol o gael ei gwneud yn ddarostyngedig i Amod Trosglwyddo

8. Mae'r adran hon o'r polisi yn nodi'r amgylchiadau lle byddai cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu yn debygol o gael ei gwneud yn ddarostyngedig i Amod Trosglwyddo, fel sy'n ofynnol gan Adran 47(2)(a) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

9. Byddai Amod Trosglwyddo yn cael ei osod mewn amgylchiadau lle yr ystyririwn fod risg o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys, ymhlith pethau eraill, amgylchiadau lle y gallai Dysgwyr gael eu hatal rhag ennill neu gwblhau cymhwyster, neu lle na ellid dyfarnu cymhwyster iddynt.

10. Gallwn osod Amod Trosglwyddo ar gyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym. Pan fyddwn yn gosod Amod Trosglwyddo ar gorff dyfarnu o'r fath, bydd ei gydnabyddiaeth barhaus yn ddarostyngedig i'r amod hwnnw.

11. Wrth ystyried Amod Trosglwyddo, byddwn yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:
    i. a oes achosion o dân, llifogydd, digwyddiadau TG, neu Weithredoedd Duw wedi effeithio ar y corff dyfarnu;
    ii. a yw'r corff dyfarnu wedi methu â rhoi cynlluniau wrth gefn, cynlluniau gweithredu neu gynlluniau tynnu'n ôl ar waith yn ddigonol, ac a oes risg sylweddol o effaith andwyol felly ar Ddysgwyr;
    iii. a fu'r corff dyfarnu yn ddarostyngedig i nifer o gamau rheoleiddio (boed hynny yng Nghymru neu tu hwnt, lle y bo'n berthnasol i Gymru);
    iv. a yw'r corff dyfarnu yn wynebu anawsterau ariannol;
    v. a oes gan y corff dyfarnu brinder staff am ba reswm bynnag;
    vi. a yw'r corff dyfarnu yn ymgymryd â newidiadau strwythurol a/neu newidiadau i'r ffordd y caiff y sefydliad ei reoli sy'n effeithio ar allu'r corff dyfarnu i gyflwyno a/neu ddyfarnu cymwysterau i Ddysgwyr;

12. Os byddwn yn gosod Amod Trosglwyddo, byddwn yn gwneud hynny yn ysgrifenedig i Swyddog Cyfrifol y corff dyfarnu perthnasol. Byddwn yn nodi digwyddiad y credwn y byddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr pe byddai'n digwydd. Byddai digwyddiadau o'r fath yn cael eu nodi a'u disgrifio fesul achos.

13. Fel rheoleiddiwr sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth, byddwn yn ystyried nifer o ffynonellau tystiolaeth perthnasol er mwyn nodi'r effaith andwyol sylweddol bosibl ar Ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, wybodaeth

sy'n dod i law yn ystod ein gweithgareddau rheoleiddio, cudd-wybodaeth a gesglir drwy gwynion neu ddatgeliadau, neu wybodaeth a geir yn uniongyrchol gan gorff dyfarnu drwy adroddiadau ar ddigwyddiadau neu fodd arall.

Yr amgylchiadau lle rydym yn debygol o Gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster

14. Unwaith y bydd Amod Trosglwyddo wedi cael ei osod ar gorff dyfarnu, ac unwaith y bydd y digwyddiad a bennwyd yn yr Amod hwnnw wedi digwydd, gallwn Gyfarwyddo'r Corff dyfarnu hwnnw i drosglwyddo cymhwyster.

15. Felly, yr amgylchiadau lle mae Cyfarwyddyd yn debygol o gael ei roi i gorff dyfarnu yw'r rheini lle rydym yn fodlon bod y digwyddiad a bennwyd yn yr Amod Trosglwyddo wedi digwydd ac, felly, fod risg o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr.

16. Yn achos digwyddiad, byddwn yn ystyried gallu'r corff dyfarnu i liniaru neu unioni'r risg o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr.

17. Byddem fel arfer yn ystyried ymgymeriadau, cynlluniau wrth gefn, cynlluniau gweithredu neu gynlluniau tynnu'n ôl ar yr adeg hon. Os bydd y corff dyfarnu yn gweithredu'r cynlluniau hyn yn llawn ac yn rheoli'r risgiau'n ddigonol, byddwn yn llai tebygol o roi cyfarwyddyd ar yr adeg honno. Fodd bynnag, pe byddai'n methu â rhoi cynlluniau priodol ar waith, neu'n methu â'u gweithredu'n ddigonol, byddem fwy na thebyg yn cymryd camau rheoleiddio, gan gynnwys cyfarwyddo'r corff Dyfarnu hwnnw i drosglwyddo'r cymhwyster perthnasol er mwyn sicrhau y gallai corff dyfarnu arall ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw i Ddysgwyr.

18. Yn yr un modd, os bydd atebion ar gael ar y farchnad i Ddysgwyr, neu os bydd cyrff dyfarnu'n cydweithio'n wirfoddol i ddiogelu buddiannau Dysgwyr (er enghraifft er mwyn sicrhau y caiff y cymhwyster ei ddyfarnu iddynt), efallai na fydd angen i ni gymryd unrhyw gamau rheoleiddio.

Nodi a chefnogi corff dyfarnu sy'n derbyn

19. Fel rhan o'r broses o drosglwyddo cymhwyster, rhagwelwn y byddai angen i ni ymgymryd â gwaith i nodi darpar gyrff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster a drosglwyddir. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan ein gwybodaeth am y farchnad cymwysterau.

20. Wrth ddewis corff dyfarnu sy'n derbyn, byddwn yn ystyried y canlynol:

i. a oes gan y corff dyfarnu yr arbenigedd perthnasol i gyflwyno cymwysterau ac asesiadau tebyg, a oes ganddo'r wybodaeth a'r gallu, a lle y bo angen, a all gynnig cymwysterau cyfrwng Cymraeg;
ii. a oedd gan y corff dyfarnu hanes digonol o gydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio;
iii. a yw'r corff dyfarnu wedi dangos y gall nodi a rheoli risgiau'n effeithiol.

21. Er mwyn nodi cyrff dyfarnu priodol sydd â diddordeb, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth hefyd. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ein bod yn rhannu cyn lleied o wybodaeth â phosibl ac ar lefel ddigonol i gyflawni ein swyddogaethau'n briodol. Yr egwyddor a fydd yn ein harwain drwy'r broses gyfan fydd diogelu dysgwyr.

22. Byddwn yn anelu at roi cefnogaeth lawn i gorff dyfarnu sy'n derbyn y cymhwyster a drosglwyddir, a gallai hyn gynnwys rhoi cymorth ariannol, lle y bo'n bosibl ac yn briodol i ni wneud hynny.

Eiddo a hawliau

23. Gall unrhyw Gyfarwyddyd a roddir yn unol â'r Amod Trosglwyddo gynnwys trosglwyddo eiddo a hawliau perthnasol i'r corff dyfarnu sy'n derbyn.

24. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio'r term "eiddo a hawliau", ac, felly, dylid dehongli'r geiriau yn unol â'u defnydd arferol, sy'n golygu bod pob math o eiddo a hawliau wedi'u cynnwys, ac y gallant gael eu cynnwys mewn Cyfarwyddyd.

25. Fodd bynnag, dim ond rhoi Cyfarwyddyd er mwyn sicrhau y gall math o gymhwyster a ddyfernir, neu a ddyfarnwyd gan gorff, gael ei ddyfarnu gan gorff arall yn y dyfodol, y gellir ei wneud. Gyda hynny mewn golwg, mae'n briodol mai dim ond "eiddo a hawliau" sy'n ymwneud â'r cymhwyster dan sylw sy'n berthnasol.

26. Bydd "eiddo a hawliau" y gallai fod angen eu trosglwyddo er mwyn galluogi Corff Dyfarnu arall i gyflwyno cymhwyster yn amrywio fesul achos, ond gallent gynnwys deunyddiau asesu, eiddo deallusol sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster hwnnw, neu hawliau mynediad i ddata a gwybodaeth perthnasol.

27. Mewn achosion lle ceir perchenogaeth a rennir o gymhwyster neu mae gan y corff dyfarnu drefniadau cytundebol mewn perthynas ag eiddo a hawliau'r cymhwyster hwnnw, byddwn yn ystyried hyn wrth bennu pa gamau rheoleiddio sy'n briodol i'w cymryd.

Taliadau

28. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud taliadau i gorff dyfarnu yn benodol mewn perthynas â cholled y mae wedi'i chael o ganlyniad i gydymffurfio â'n Cyfarwyddyd i drosglwyddo cymhwyster. Ni ddylid ystyried bod y defnydd o'r pŵer hwn yn fodd i wobrwyo diffyg cydymffurfiaeth, ond yn hytrach, dylid ei ystyried yn ymgais o leihau neu liniaru effaith negyddol ar allu'r corff dyfarnu hwnnw i ddyfarnu cymwysterau eraill i Ddysgwyr yng Nghymru sy'n codi o ganlyniad i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd.

29. Mae'r materion rydym yn debygol o'u hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud taliad i gorff dyfarnu, a swm unrhyw daliad o'r fath, yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:
    i. gallu'r corff dyfarnu i gyflwyno a dyfarnu cymwysterau eraill a gynigir ganddo i Ddysgwyr yng Nghymru; a
    ii. y risg o effaith andwyol ar Ddysgwyr ac ar hyder y cyhoedd yn y system cymwysterau yng Nghymru.

Yr amgylchiadau lle rydym yn debygol o adolygu neu ddiwygio Amodau Trosglwyddo, a'r ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried

30. Ni fydd gan Amod Trosglwyddo ddyddiad dod i ben penodol. Fodd bynnag, os ydym wedi rhoi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw, a bod y corff dyfarnu wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwnnw yn foddhaol, weithiau, byddwn yn adolygu neu'n diwygio'r Amod Trosglwyddo os yw'n amserol ac yn briodol gwneud hynny.

31. Wrth adolygu neu ddiwygio'r Amod Trosglwyddo, mae'r ffactorau rydym yn debygol o'u hystyried yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

    i. a yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gennym yn foddhaol;
    ii. a yw anghenion rhesymol Dysgwyr wedi cael eu diwallu;
    iii. a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr o hyd.

32. Gall adolygiad nodi bod y gofynion a amlinellwyd yn yr Amod Trosglwyddo wedi cael eu bodloni'n foddhaol, ac nad yw'n briodol mwyach i gydnabyddiaeth barhaus y corff dyfarnu fod yn ddarostyngedig iddo. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddem yn ysgrifennu i'r corff dyfarnu er mwyn cadarnhau hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw diddymu'r Amod Trosglwyddo yn golygu y caiff y cymhwyster ei drosglwyddo'n ôl i'r corff dyfarnu.

33. Gallwn osod Amod Arbennig ar y corff dyfarnu i'w atal rhag datblygu, cyflwyno a/neu ddyfarnu'r un cymhwyster neu gymhwyster tebyg. Byddem yn adolygu hyn yn barhaus er mwyn ennyn hyder yn y system cymwysterau a/neu i ddiogelu'r dysgwyr.

Y broses ar gyfer Gosod Amod Trosglwyddo a rhoi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw

34. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth osod Amod Trosglwyddo ar gorff dyfarnu, ac, yn dilyn hynny, wrth roi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw, lle y bo'n briodol. Mae hon yn broses ddau gam, fel yr amlinellir yn y Ddeddf. Gweler Atodiad 1 am ddiagram eglurhaol o'r broses hon.

Cam 1 – Hysbysiad o Fwriad i osod Amod Trosglwyddo

35. Pan fyddwn wedi nodi risg o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr ac wedi penderfynu gosod Amod Trosglwyddo, byddwn yn rhoi Hysbysiad o Fwriad i'r corff dyfarnu. Bydd yr Hysbysiad hwn yn nodi'r canlynol:

    i. y rhesymau dros gynnig gosod yr amod hwn, gan gynnwys cyfeirio at unrhyw dystiolaeth a gasglwyd gennym;
    ii. testun arfaethedig yr Amod Trosglwyddo, gan gynnwys;
        - y cymhwyster y mae'n cyfeirio ato;
        - y bydd cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn ddarostyngedig i'r Amod Trosglwyddo,
        - disgrifiad o ddigwyddiad, a fydd yn peri i ni roi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw,
    iii. cyfnod pan fydd y corff dyfarnu yn gallu gwneud sylwadau,
    iv. cyfnod pan fyddwn yn penderfynu a ddylid gosod yr Amod Trosglwyddo arfaethedig.

Cam 2 – Sylwadau

36. Ar ôl i'r Hysbysiad o Fwriad ddod i law, bydd gan y corff dyfarnu gyfnod o **15 diwrnod gwaith** i gyflwyno sylwadau i ni.

37. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle byddwn yn nodi risg uniongyrchol o effaith andwyol sylweddol ar Ddysgwyr, efallai y byddwn yn rhoi llai o amser i gorff dyfarnu gyflwyno sylwadau a byddwn yn cynnwys ein rhesymau dros wneud hynny yn ein Hysbysiad o Fwriad.

38. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir ac yna'n penderfynu a ddylid cymryd camau pellach.

Cam 3 – Gosod Amod Trosglwyddo

39. Lle y bo'n briodol, byddwn yn gosod Amod Trosglwyddo y bydd cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddo. Bydd y ddogfen hon yn cynnwys:

    i. testun yr Amod Trosglwyddo, fel y'i nodir yn yr Hysbysiad o Fwriad, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a wneir yn dilyn sylwadau; a
    ii. y dyddiad y bydd cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn ddarostyngedig i'r Amod Trosglwyddo hwn.

40. Ar ôl gosod Amod Trosglwyddo, byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau'r corff dyfarnu. Bydd yr amod hwn yn nodi y gallwn gyfeirio corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster yn achos digwyddiad a bennir. Ni fyddwn yn cyfarwyddo corff dyfarnu oni fyddwn yn fodlon bod y digwyddiad a bennir yn yr Amod Trosglwyddo wedi digwydd.

Cam 4 – Hysbysiad o Fwriad i Roi Cyfarwyddyd

41. Os bydd y digwyddiad a bennir yn yr Amod Trosglwyddo yn digwydd, gallwn roi Cyfarwyddyd. Cam rheoleiddio ydyw, ac mae'n rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw Gyfarwyddyd er mwyn iddo barhau i gael ei gydnabod gennym.

42. Os byddwn yn penderfynu rhoi Cyfarwyddyd i gorff dyfarnu, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Fwriad i wneud hynny i'r corff dyfarnu. Bydd yr Hysbysiad hwn yn nodi'r canlynol:

    i. y Cyfarwyddyd arfaethedig i'w roi;
    ii. y rhesymau dros gynnig rhoi'r Cyfarwyddyd hwn;
    iii. cyfnod o amser pan fyddwn yn penderfynu a ddylid rhoi Cyfarwyddyd arfaethedig.

Cam 5 – Sylwadau

43. Gall corff dyfarnu sy'n cael Hysbysiad o'n bwriad i roi Cyfarwyddyd wneud y canlynol:

    i. cyflwyno sylwadau i ni – o fewn **tri diwrnod gwaith** i ddyddiad yr Hysbysiad, fan bellaf; neu

ii. gwneud dim, os felly, byddwn fel arfer yn aros hyd nes bod y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad wedi dod i ben cyn cymryd camau pellach.

Cam 6 – Rhoi Cyfarwyddyd

44. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff dyfarnu o fewn y terfyn amser a amlinellir yng Ngham 5 uchod.

45. Os byddwn yn penderfynu rhoi Cyfarwyddyd, mae'n debygol o gynnwys y canlynol:

    i. y seiliau dros roi'r Cyfarwyddyd;
    ii. testun y Cyfarwyddyd, sy'n debygol o gynnwys;
        - y cymhwyster y mae'r Cyfarwyddyd yn cyfeirio ato;
        - unrhyw eiddo neu hawliau perthnasol i'w trosglwyddo i ail gorff dyfarnu sy'n derbyn er mwyn i'r corff hwnnw ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw;
        - terfyn amser y broses drosglwyddo er mwyn i'r garfan bresennol o Ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster y mae'r hysbysiad yn cyfeirio ato;
        - y dyddiad y daw'r Cyfarwyddyd arfaethedig i rym, os na ofynnir am adolygiad annibynnol;
        - darpariaeth ar gyfer gwneud taliadau, os oes angen.
    iii. yr hyn a fydd yn digwydd os na chydymffurfir â'r Cyfarwyddyd, gan gynnwys tynnu'r gydnabyddiaeth yn ôl o bosibl;
    iv. hawl y corff dyfarnu i ofyn am adolygiad o'n penderfyniad i roi Cyfarwyddyd, gan gyfeirio at ein Polisi apeliadau rheoliadol.

46. Caiff y Cyfarwyddyd hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan fel arfer.

47. Gall unrhyw gorff dyfarnu a gaiff Gyfarwyddyd wneud cais am apêl reoliadol yn erbyn ein penderfyniad yn unol â'n Polisi Apeliadau Rheoleiddiol.

48. Wrth wneud cais am apêl, dylai'r corff dyfarnu ysgrifennu at y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn corporategovernance@qualificationswales.org neu ysgrifennu atom yn:

    Cymwysterau Cymru
    Adeilad Q2
    Lôn Pencarn
    Parc Imperial
    Coedcernyw
    Casnewydd
    NP10 8AR

Atodiad 1 – Y Broses ar gyfer Gosod Amod Trosglwyddo a rhoi Cyfarwyddyd yn unol â'r Amod hwnnw